

TAFLEN BENDERFYNIAD AELOD UNIGOL O GABINET CYNGOR GWYNEDD

DYDDIAD Y PENDERFYNIAD	16 Gorffennaf 2019
DYDDIAD CYHOEDDI'R PENDERFYNIAD	17 Gorffennaf 2019
DYDDIAD Y BYDD Y PENDERFYNIAD YN DOD I RYM ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25.1 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd.	24 Gorffennaf 2019

ENW A THEITL YR AELOD CABINET

Y Cyngorydd Ioan Thomas, Aelod Cabinet ar gyfer Cyllid

PWNC: Rhwydwaith Ffibr Leol Gyflawn (RhFfLG)

PENDERFYNIAD –

- Ein bod yn cefnogi Cyngor Sir Ddinbych fel Awdurdod Arweiniol i redeg y prosiect RhFfLG ac i weinyddu'r arian a ddaw gan Adran Digidol, Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon (Llywodraeth y DU).
- Cytuno i'r Cyngor ymuno yn y Cytundeb Cydweithio atodol â chyrrff partner eraill mewn perthynas â'r prosiect Rhwydwaith Ffibr Llawn Lleol.
- Bod y Cabinet yn rhoi caniatâd i Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol gytuno ar delerau terfynol y Cytundeb Cydweithio a chael awdurdod dirprwyedig mewn perthynas ag unrhyw fân newidiadau ar ôl ei gwblhau.

RHESWM DROS YR ANGEN AM Y PENDERFYNIAD –

Gweler yr Adroddiad Swyddog atodedig

DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU


Dim

UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWDYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD-

Ymgynghorwyd â –
Swyddogion Statudol Cyngor Gwynedd

Adroddir ar ganlyniadau'r ymgynghoriadau yn yr adroddiad atodedig

TAFLEN BENDERFYNIAD AELOD UNIGOL O GABINET CYNGOR GWYNEDD – ADRODDIAD SWYDDOG

Enw a theitl yr Aelod/au Cabinet :	Y Cynghorydd Ioan Thomas, Aelod Cabinet ar gyfer Cyllid
Enw a theitl Awdur yr Adroddiad :	Huw Ynyr (Pennaeth Cynorthwyol Technoleg Gwybodaeth)
Dyddiad y Cymerwyd y Penderfyniad:	12/7/19.
Llofnod yr Aelod/au Cabinet :	

Pwnc : Rhwydwaith Ffibr Leol Gyflawn (RhFfLG)

Mae'r RhFfLG yn gynllun i ymestyn isadeiledd ffibr ar draws Gogledd Cymru gan ddod a chysylltedd ffibr i adeiladau sydd dan reolaeth neu'n cael eu defnyddio ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus.

Mae nifer sylweddol o adeiladau'r Cyngor yn meddu ar gyswllt ffibr. Yng nghefn gwlad fodd bynnag, gall cyflwyno cysylltedd ffibr olygu costau sylweddol i ddod ac isadeiledd ffibr i'r ardal.

Mae'r Adran Digidol, Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon (Llywodraeth y DU) wedi awdurdodi swm o £8,086,000 (wyth miliwn ac wyth deg chwech mil o bunnau) i gael ei wario yn rhanbarth Gogledd Cymru i gwrdd a chostau i ddod a chysylltiadau ffibr i'r mannau hynny ble mae costau peiriannu ychwanegol yn ormodol. Mae costau cysylltedd yn cynnwys costau safonol ar gyfer y cyfarpar a gall gynnwys costau ychwanegol os oes angen ymestyn rhediad y ffibr. Yn draddodiadol roedd cyswllt band eang yn cael ei gyflwyno ar y gwifrau sy'n cael eu defnyddio ar gyfer cysylltu'r ffôn, ond cyflymder araf yn unig sydd ar gael drwy ddefnyddio'r cyfrwng yma. Bellach, mae defnyddio gwifrau ffibr ar gyfer cyflwyno band eang uwch gyflym yn dod yn gyffredin, ond nid yw'r isadeiledd i'w gael ym mhobman. Mae'r arian sydd wedi ei awdurdodi yn golygu y gallwn gyflwyno cyswllt rhwydwaith band eang uwch gyflym i sefydliadau cyhoeddus heb ysgwyddo'r baich ychwanegol o dalu i ymestyn rhediad y ffibr, gan olygu bod costau o gyflwyno cyswllt ffibr am fod yn goson ar draws y rhanbarth, boed yn ardal trefol neu wledig.

Mae rhaglen waith cynnal a chadw'r Cyngor wedi adnabod 17 adeilad sy'n parhau a chyswllt copr. Golyga'r arian ychwanegol y byddwn yn gallu uwchraddio'r adeiladau hynny oddi fewn y gyllideb bresennol.

Mae Cyngor Gwynedd yn un o'r partneriaid sydd hefyd yn cynnwys pump Awdurdod arall y Gogledd a'r Bwrdd Iechyd.

Mae prosiect y RhFfLG yn is-broject o dan fantell Bwrdd Uchelgais Gogledd Cymru.

Cyngor Sir Ddinbych fydd yn gweinyddu'r prosiect ac yn derbyn yr arian gan yr Adran Digidol, Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon. Fe fydd y sefydliadau unigol yn cytundebu gyda BT Global Services (GS) i archebu'r cysylltiadau fel rhan o ddarpariaeth y PSBA (rhwydwaith genedlaethol sector gyhoeddus Cymru), gan dalu'n uniongyrchol i BT GS am y gwasanaeth, ond yn ad-hawlio gan Gyngor Sir Ddinbych yn chwarterol.

Mae disgwyl i brosiect y RhFfLG barhau am ddwy flynedd.

Mae gwybodaeth cyflawn am y prosiect ar gael yn "Atodiad 1 – RhFfLG Cytundeb Rhyng Asiantaethol".

Argymhelliad ar gyfer y Penderfyniad :

- Ein bod yn cefnogi Cyngor Sir Ddinbych fel Awdurdod Arweiniol i redeg y prosiect RhFfLG ac i weinyddu'r arian a ddaw gan Adran Digidol, Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon (Llywodraeth y DU).
- Cytuno i'r Cyngor ymuno yn y Cytundeb Cydweithio atodol â chyrrff partner eraill mewn perthynas â'r prosiect Rhwydwaith Ffibr Llawn Lleol.
- Bod y Cabinet yn rhoi caniatâd i Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol gytuno ar delerau terfynol y Cytundeb Cydweithio a chael awdurdod dirprwyedig mewn perthynas ag unrhyw fân newidiadau ar ôl ei gwblhau.

Rheswm dros yr angen am y Penderfyniad : Mae hwn yn gyfle euraidd i ni gymryd cam bositif ar nawdd Lywodraeth y DU i wella cysylltedd band eang uwch gyflym yng nghefn gwlad Gwynedd. Ein nod yw cyflwyno gwelliannau parhaus i'n gwasanaethau a mae technoleg yn ran annatod o'r gwelliannau hynny.

Rhesymeg a chyfiawnhad dros gyrraedd y Penderfyniad : Gallwn raglennu gwelliannau i gysylltiadau rhwydwaith adeiladau'r Cyngor oddi fewn ein cyllideb presennol, gydag arian gan yr Adran Digidol, Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon (Llywodraeth y DU) yn cwrdd ag unrhyw gostau peiriannu ychwanegol.

Cofnod o unrhyw fuddiant a ddatganwyd gan unrhyw Aelod Cabinet yr ymgynghorwyd â hwy ac unrhyw oddefeb gan Bwyllgor Safonau :

Unrhyw ymgynghoriadau a gynhaliwyd cyn gwneud y Penderfyniad :

Prif Swyddog Cyllid – *"Bydd budd i'r Cyngor ac i drigolion Gwynedd o dderbyn grant Llywodraeth y DU a chytundebu er mwyn gweithredu'r prosiect Rhwydwaith Ffibr Leol. Deallaf does dim ymrwymiad yma tu hwnt i ddarpariaeth y gyllideb*

bresennol, felly rwy'n cefnogi'r argymhelliad i'r Cyngor ymuno yn y cytundeb rhanbarthol."

Swyddog Monitro – *"Mae'r adroddiad yn crynhoi natur y prosiect cyd-weithio fydd yn rhoi mynediad i adnoddau ar gyfer uchafu darpariaeth digidol ar draws y Gogledd. Cafwyd mewnbwn cyfreithiol ar draws y 6 awdurdod i ddraftio'r gytundeb. Dim sylwadau pellach i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb."*

Aelod/au Lleol – Dim yn berthnasol



Dyddiad

2019

**CYTUNDEB CYDWEITHREDU YN YMWNEUD Â'R RHAGLEN
RHWYDWAITH FFIBR LLAWN LLEOL**

Rhan 1	Partïon a strwythurau	4
1	Diffiniadau	4
2	Rhwymedigaeth i gydweithio	5
3	Bwrdd Rheoli Strategol	5
4	Gweithdrefn rhybuddio'n gynnar	6
5	Cyfathrebu	6
6	Cynrychiolwyr	6
Rhan 2	Amcanion cydweithio	7
7	Amcanion	7
8	Cydweithio	7
Rhan 3	Gweithredu	8
9	Methiant neu oedi ac unioni	8
10	Dyletswydd gofal	8
Rhan 4	Taliadau	8
11	Taliadau	8
Rhan 5	Rheoli newid ac amrywiadau	9
12	Newid	9
Rhan 6	Indemniad	9
13	Indemniad	9
Rhan 7	Gweithwyr	10
14	Gweithwyr	10
Rhan 8	Cyfnod a therfynu	111
15	Cyfnod	11
16	Terfynu	11
17	Canlyniadau terfynu	11
18	Eiddo Deallusol	11
Rhan 9	Trin problemau, osgoi anghydfodau a'u datrys	11
19	Hysbysu am drin problemau	11
20	Datrys anghydfod mewn modd amgen dispute resolution	12
Rhan 10	Cyffredinol	12
21	Dim partneriaeth	12
22	Hysbysiadau	13
23	Cytundeb cyfan	14
24	Costau a threuliau	14
25	Arfer swyddogaethau statudol	15
26	Ildio hawliau	15

27	Toradwyedd	15
28	Y gyfraith ac awdurdodaeth	15
29	Gwybodaeth a chyfrinachedd	15
30	Aseiniad	155
31	Hawliau trydydd parti	16
32	Amrywiadau	16
33	Gwrthrannau	16

Atodlen 1 - Diffiniadau

Atodlen 2 - Gwasanaethau

Atodlen 3 - Cyllid

Atodlen 4 - Rheoli a Llywodraethu

Atodlen 5 - Rhaglen Waith

Atodlen 6 - Achos Busnes

Atodlen 7- Cyfrinachedd

Atodlen 8 - Llythyr Cynnig Amodol

rhwng

Partïon

- (1) Cyngor Sir Ddinbych (“yr **Awdurdod Arweiniol**”)
- (2) Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (“**Conwy**”)
- (3) Cyngor Sir y Fflint (“**Sir y Fflint**”)
- (4) Cyngor Gwynedd (“**Gwynedd**”)
- (5) Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam (“**Wrecsam**”)
- (6) Cyngor Sir Ynys Môn (“**Ynys Môn**”)
- (7) Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru (“**GGGC**”)
- (8) Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (“**BIPBC**”)

ynghyd, y “Partïon” ac yn unigol y “Parti” y mae eu cyfeiriadau wedi’u nodi yng nghymal 22 yn y Cytundeb hwn.

Cefndir

- (A) Mae'r Adran Digidol, Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon (yr Adran DDCCCh) wedi dyrannu swm o £8,086,000 i'r Awdurdod Arweiniol ar ran y Partïon, neu fel y gall gael ei amrywio o dro i dro lle bydd yr Adran DDCCCh yn rhoi gwybod i'r Awdurdod Arweiniol, i ddarparu rhwydwaith ffibr llawn ar draws ardaloedd gweinyddol y Partïon.
- (B) Mae'r Partïon yn dymuno ffurfio cytundeb i reoli'r prosiect sy'n ymwneud â'r rhaglen Rhwydwaith Ffibr Llawn Lleol, a fydd yn nodi y bydd Cyngor Sir Ddinbych yn darparu gwasanaethau, fel yr Awdurdod Arweiniol, sydd wedi'u cynnwys yn yr Achos Busnes.
- (C) Mae'r Partïon yn cytuno y dylid ffurfio'r cytundeb ar sail gydweithredol er mwyn cyflawni amcanion er budd y cyhoedd (gan roi ystyriaeth i'w strategaethau cymunedol) a chan geisio sicrhau lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol yr ardal.
- (D) Mae'r Partïon yn ffurfio'r Cytundeb hwn yn unol â'r pwerau a roddir iddynt yn Adran 9 Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009, Adran 111 Deddf Llywodraeth Leol 1972 ac Adran 2 Deddf Llywodraeth Leol 2000 a'r holl bwerau galluogi eraill.

Cymalau hanfodol

Rhan 1 Partïon a strwythurau

1 Diffiniadau

Bydd darpariaethau Atodlen 1 (Diffiniadau) yn berthnasol ac yn effeithiol mewn perthynas â'r geiriau a'r ymadroddion a ddefnyddir yn y Cytundeb hwn ac wrth ddehongli a llunio'r Cytundeb hwn.

2 Rhwymedigaeth i gydweithio

O'r Dyddiad Cychwyn, bydd y Partïon yn gweithio ynghyd ac yn unigol o ran ymddiriedaeth, tegwch a chydweithredu â'i gilydd er mwyn cyflawni a rheoli'r Prosiect.

3 Bwrdd Rheoli Strategol

3.1 Bydd y Partïon yn sefydlu Bwrdd Rheoli Strategol i adolygu sut mae'r Prosiect yn cael ei weithredu a'i reoli, yn unol â'r Cylch Gorchwyl sydd yn Atodlen 4, a fydd yn cynnwys yr unigolion canlynol:

- 3.1.1 Barry Eaton - Prif Swyddog TGCh (yr Awdurdod Arweiniol);
- 3.1.2 Huw McKee - Pennaeth Technoleg Gwybodaeth a Thrawsnewid Digidol (Conwy);
- 3.1.3 Linda Astbury - Rheolwr Cyfathrebu TG (Sir y Fflint);
- 3.1.4 Huw Ynyr - Uwch-reolwr TG a Thrawsnewid (Gwynedd);
- 3.1.5 Dave Jacobs - Arweinydd TGCh (Wrecsam);
- 3.1.6 Neil Summers - Rheolwr Gwasanaethau Technegol (Ynys Môn);
- 3.1.7 Chris Brown - Rheolwr Datblygu Isadeiledd (GGGC)
- 3.1.8 David Slocombe - Rheolwr Cyfathrebu Data (BIPBC)
- 3.1.9 Helen Makin - Rheolwr Gweithrediadau Cyfreithiol a Chaffael (yr Awdurdod Arweiniol) (ddim yn pleidleisio);
- 3.1.10 Stuart Whitfield - Rheolwr Prosiect (yr Awdurdod Arweiniol) (ddim yn pleidleisio);
- 3.1.11 Steve Bayley - Uwch-swyddog Cyfrifol am y Prosiect (Wrecsam)

3.2 Gall personél y Bwrdd Rheoli Strategol newid os yw'r Partïon yn cytuno ar hynny.

- 3.3** Bydd pob Parti'n sicrhau bod unrhyw rai o'i weithwyr sy'n aelodau o'r Bwrdd Rheoli Strategol yn mynd i gyfarfodydd y Bwrdd Rheoli Strategol.
- 3.4** Bydd cyfarfodydd y Bwrdd Rheoli Strategol yn cael eu galw gan y Rheolwr Prosiect ar gais unrhyw aelod o'r Bwrdd Rheoli Strategol ac fel arall yn cael eu cynnal bob chwarter a chydag o leiaf bum (5) diwrnod gwaith o rybudd i holl aelodau'r Bwrdd Rheoli Strategol, a bydd y rhaglen yn cael ei hanfon yn ystod y cyfnod hwn.
- 3.5** Bydd Cadeirydd y Bwrdd Rheoli Strategol yn cael ei ddewis bob blwyddyn. Os byddant yn absennol, bydd y cyfarfod yn cael ei gadeirio gan yr Is-gadeirydd, a fydd wedi'i benodi gan y Bwrdd Rheoli Strategol yng nghyfarfod cyntaf y Bwrdd.
- 3.6** Bydd penderfyniadau'r Bwrdd Rheoli Strategol yn cael eu gwneud trwy gonsensws holl aelodau'r Bwrdd Rheoli Strategol sy'n bresennol yn y cyfarfod a bydd y Partion wedi'u rhwymo wrth unrhyw benderfyniad mae'r Bwrdd Rheoli Strategol yn ei wneud o fewn cwmpas y swyddogaethau y cytunwyd arnynt ar ei gyfer.

4 Gweithdrefn rhybuddio'n gynnar

Mae pob Parti'n cytuno i roi gwybod i'r gweddill cyn gynted ag y daw i wybod am unrhyw fater sy'n bygwth neu'n effeithio ar y Prosiect yn andwyol neu ei gyfrifoldebau ei hun o dan y Cytundeb hwn a bydd yn cyflwyno cynigion i'r Bwrdd Rheoli Strategol i osgoi neu adfer mater o'r fath.

5 Cyfathrebu

Ac eithrio lle cytunir fel arall yn ysgrifenedig, bydd y Partion i gyd yn cyfathrebu gyda'i gilydd yn ysgrifenedig trwy'r post neu e-bost, ond lle bydd angen hysbysiad yn unol ag unrhyw ddarpariaethau yn y Cytundeb hwn, bydd darpariaethau cymal 22 (Hysbysiadau) yn berthnasol.

6 Cynrychiolwyr

- 6.1** Bydd pob Parti'n penodi'r Cynrychiolydd Awdurdodedig i weithredu ar ran y Parti at ddibenion y Cytundeb hwn. Gall y Cynrychiolydd Awdurdodedig fod yr un unigolyn â'r sawl a enwir yng nghymal 3.1 fel y cynrychiolydd ar y Bwrdd Rheoli Strategol.
- 6.2** Bydd yr Awdurdod Arweiniol yn sicrhau bob amser, o'r Dyddiad Cychwyn ymlaen, fod y Rheolwr Prosiect (neu ddirprwy sydd wedi'i awdurdodi) ar gael i Gynrychiolydd Awdurdodedig gysylltu ag o neu hi bob amser yn ystod oriau swyddfa arferol pob diwrnod gwaith.
- 6.3** Ystyrir bod y Cynrychiolydd Awdurdodedig wedi'i awdurdodi ar ran y Parti perthnasol ar gyfer pob diben sy'n gysylltiedig â'r Prosiect, ac yn benodol (ond heb ei gyfyngu i hyn), ystyrir bod unrhyw hysbysiad, gwybodaeth, cyfarwyddyd neu achos o gyfathrebu a roddir neu a wneir gan neu i'r Cynrychiolydd Awdurdodedig wedi'i roi neu ei wneud gan neu i'r Parti perthnasol.

- 6.4** Bydd pob Parti trwy gydol Cyfnod y Cytundeb yn sicrhau bod y Cynrychiolydd Awdurdodedig (neu ddirprwy sydd wedi'i awdurdodi'n briodol) ar gael i ymgynghori gyda'r Rheolwr Prosiect ar bob adeg resymol.
- 6.5** Bydd y Rheolwr Prosiect neu ddirprwy sydd wedi'i awdurdodi'n briodol yn cael eu galluogi ar ran yr Awdurdod Arweiniol at bob diben sy'n gysylltiedig â'r Cytundeb hwn. Bydd unrhyw hysbysiad, gwybodaeth, cyfarwyddyd neu achos o gyfathrebu a roddir neu a wneir i'r Rheolwr Prosiect neu ddirprwy'n cael ei ystyried i fod wedi'i roi neu ei wneud gan neu i'r Awdurdod Arweiniol.
- 6.6** Mae pob Parti'n cytuno y gall pob un benodi dirprwy i weithredu fel Dirprwy Awdurdodedig eu Cynrychiolydd, wrth roi gwybod i'r Awdurdod Arweiniol am yr unigolyn hwnnw. Ni all y Dirprwy ond gweithredu yn absenoldeb y Cynrychiolydd Awdurdodedig neu'r Rheolwr Prosiect (yn ôl y digwydd).

Rhan 2 Amcanion cydweithio

7 Amcanion

- 7.1** Bydd y Partïon yn sefydlu, yn datblygu ac yn gweithredu eu perthynas gydweithredol gyda'r amcan o:
- 7.1.1 gyflawni'r Prosiect yn unol â'r Achos Busnes sydd yn Atodlen 6;
 - 7.1.2 cyflawni'r Prosiect o fewn yr amserlen y cytunir arni;
 - 7.1.3 cwblhau'r gwaith erbyn 31 Mawrth 2021;
 - 7.1.3 rheoli'r Prosiect yn effeithiol yn ystod y cyfnod; a
 - 7.1.4 chydymffurfio ag amodau'r Grant.

8 Cydweithio

- 8.1** Mae'r amcanion i gael eu hadolygu'n gyson trwy gyfarfodydd a chyfathrebu'n effeithiol.
- 8.2** Bydd y Partïon yn sefydlu trefniadau cydweithio a datrys problemau yn seiliedig ar:
- 8.2.1 gyflawni er mwyn darparu a rheoli'r Prosiect ac er budd a lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol pob Parti;
 - 8.2.2 ymddiriedaeth, tegwch, cydweithio, ymroddiad i gytuno ar nodau cyffredin a dealltwriaeth o ddisgwyliadau a gwerthoedd pob Parti;
 - 8.2.3 chwilio am ddatrysiadau heb roi bai;
 - 8.2.4 canlyniadau sydd o fudd i bawb;

- 8.2.5 trin y Partïon yn gyfartal yn y broses o ddatrys anghydfod;
- 8.2.6 derbyn bod agweddau gwrthwynebol yn gwastraffu amser ac arian;
- 8.2.7 mwy o drafod a thrafod yn well gyda llai o waith papur a mwy o ohebiaeth adeiladol.

8.3 Bydd pob Parti'n sicrhau nad ydynt hwy eu hunain, ond nid y naill a'r llall, yn gwneud dim, nac yn methu â chydymffurfio â rhwymedigaeth neu un o ofynion y Grant, a fyddai'n golygu bod gweithred neu fethu â gweithredu yn, neu'n debygol o, achosi i'r Awdurdod Arweiniol fynd yn groes i'w rwymedigaethau ynghlwm â'r Grant.

Rhan 3 Gweithredu

9 Methiant neu oedi ac unioni

Bydd yr Awdurdod Arweiniol yn monitro ac yn adolygu sut mae'r Prosiect yn cael ei reoli'n barhaus ac os yw'n canfod bod unrhyw ddiffygion yn y broses reoli (yn ôl y digwydd), bydd yn cymryd camau angenrheidiol heb aros i'r Partïon eraill gytuno â hynny. Os oes Parti sy'n credu nad yw'r Prosiect wedi'i gyflawni'n unol â'r Achos Busnes neu'r Manylion neu'r Cytundeb hwn, gall godi'r mater gyda'r Awdurdod Arweiniol yn ysgrifenedig a gofyn am ymateb i'r pryderon sydd ganddo.

10 Dyletswydd gofal

Mae'r Awdurdod Arweiniol yn cydnabod i'r Partïon eraill bod dyletswydd gofal arno i ddarparu'r Gwasanaethau mewn modd sy'n cyd-fynd â'r Manylion a bydd, o fewn rheswm, yn cymryd pob gofal, yn defnyddio sgiliau ac yn gweithio'n ddiwyd i gyflawni'r Prosiect.

Bydd y Partïon yn cydymffurfio â'r weithdrefn sydd i'w gweld yn Atodiad B i Atodlen 3 ac yn cyflwyno hawliadau am daliadau'n unol ag Atodiad A i Atodlen 3.

Rhan 4 Taliadau

11 Taliadau

11.1 Bydd yr Awdurdod Arweiniol yn derbyn taliad y Grant yn ôl-weithredol wrth gyflwyno hawliadau chwarterol i'r Adran DDCCCh ar ran y Partïon.

11.2 Bydd pob Parti'n cyflwyno manylion am y cysylltiadau a wnaed yn ystod y chwarter blaenorol i'r Awdurdod Arweiniol pob chwarter. Ni fydd gan unrhyw Barti hawl i ad-daliad am gostau cysylltiadau nes bydd yr Awdurdod Arweiniol wedi derbyn y gyfran berthnasol o'r Grant gan yr Adran DDCCCh. Bydd pob Parti'n gwbl gyfrifol am gyflwyno ffurflenni i'r Awdurdod Arweiniol ar amser a bydd yn darparu gwybodaeth y mae'r Adran DDCCCh ei hangen er mwyn i'r Awdurdod Arweiniol allu cydymffurfio ag amodau'r Grant.

11.3 Bydd y Partïon yn cyflwyno hawliad am ad-daliad o gostau cysylltiadau gan ddefnyddio'r ffurflen sydd yn Atodlen 3 'Cyllid'.

- 11.4** Bydd yr Awdurdod Arweiniol yn prosesu'r hawliadau sydd wedi'u gwneud gan y Partïon yn amserol a bydd yn cyflwyno'r hawliadau i'r Adran DDCCCh. Ni fydd yr Awdurdod Arweiniol yn gyfrifol mewn unrhyw fodd am wneud taliad mewn perthynas â hawliad nes bydd yr Awdurdod Arweiniol wedi derbyn taliad am y gyfran o'r Grant sy'n berthnasol i'r hawliad. Bydd yr Awdurdod Arweiniol yn ad-dalu'r Parti perthnasol o fewn 30 niwrnod i ddyddiad derbyn y gyfran o'r Grant gan yr Adran DDCCCh.
- 11.5** Bydd taliadau'n cael eu cysoni ar ddiwedd y Cyfnod yn unol â'r trefniadau sydd wedi'u nodi yn Atodlen 3 'Cyllid'.
- 11.6** Bydd pob Parti'n sicrhau bod y gwaith sydd ei angen gan y Parti perthnasol fel mae wedi'i nodi yn y Rhaglen Waith wedi'i archebu a'i gwblhau erbyn 31 Mawrth 2021.
- 11.7** Mae'r Partïon yn cytuno'n llwyr na all unrhyw waith gael ei archebu na'i gwblhau ar ôl 31 Mawrth 2021.

Rhan 5 Rheoli newid ac amrywiadau

12 Newid

- 12.1** Os oes Parti sy'n dymuno i'r Gwasanaethau gael eu hamrywio, bydd y Bwrdd Rheoli Strategol yn cyfarfod i drafod a chytuno ar y sail i unrhyw newid i'r Gwasanaethau a/neu'r taliadau.
- 12.2** Pryd bynnag y bo newid i'r gyfraith, bydd y Bwrdd Rheoli Strategol yn cyfarfod i drafod effaith y newid i'r gyfraith ac yn cytuno ar y sail i unrhyw newid i'r Gwasanaethau a/neu'r taliadau.

Rhan 6 Indemniad

13 Indemniad

- 13.1** Bydd y Partïon (ar wahân i'r Awdurdod Arweiniol) ar y cyd yn indemnio ac yn digolledu, yn gyfartal, yn ôl y fformiwla yng nghymal 13.3, yr Awdurdod Arweiniol, ei weithwyr, ei asiantiaid neu ei swyddogion o ran pob hawliad, gorchymyn, gweithred, cost, traul, colled neu ddifrod sy'n dod yn sgil camau gweithredu'r Awdurdod Arweiniol a champau ar ran y Partïon mewn perthynas â'r Prosiect a'r Cytundeb hwn.
- 13.2** Ni fydd yr indemniad na'r digollediad sydd yng nghymal 13.1 yn cynnwys unrhyw atebolrwydd sydd ar yr Awdurdod Arweiniol o ganlyniad i weithred neu ddiffyg gweithredu sy'n achos o esgeulustod, twyll neu gamfyneiant.
- 13.3** At ddibenion cymal 13.1, bydd cyfraniad yr holl Partïon, gan gynnwys yr Awdurdod Arweiniol, yn gyfartal fel pe bai'r Awdurdod Arweiniol wedi'i gynnwys fel Cyngor a oedd yn atebol i gyfrannu dan gymal 13.1. Yn unol â hynny, bydd pob Parti (heb gynnwys yr Awdurdod Arweiniol) yn atebol i'r Awdurdod Arweiniol am y gyfran ganlynol o'r hawliadau, gorchmynion, gweithredoedd, costau, treuliau, colledion neu ddifrod sydd wedi'u nodi yng nghymal 13.1:

Nifer y Partion
(heb gynnwys yr Awdurdod Arweiniol)

Cyfraniad

Saith	Un rhan o wyth
Chwech	Un rhan o saith
Pump	Un rhan o chwech
Pedwar	Un rhan o bump
Tri	Un chwarter
Dau	Un rhan o dair
Un	Un hanner

- 13.4** Ni fydd yr Awdurdod Arweiniol yn atebol i unrhyw un o'r Partion mewn perthynas â gwaith neu gontract pob un neu unrhyw un o'r Partion a bydd pob Parti'n gyfrifol am roi trefniadau ar waith fel yswiriant yn ôl yr angen er mwyn cwblhau'r gwaith neu gontract cysylltiedig.
- 13.5** Er y bydd y Partion yn gwneud pob ymdrech resymol i leihau'r siawns o golledion, bydd pob Parti'n indemnio pob un o'r Partion eraill am unrhyw golled, gweithred, hawliad, gorchymyn neu draul (gan gynnwys costau cyfreithiol ar sail indemnio) a allai ddod yn sgil neu o ganlyniad i'r Parti'n gweithredu neu'n methu â gweithredu ar ei rwymedigaethau mewn perthynas â'r Cytundeb hwn.
- 13.6** Pan mae un Parti (y "**Parti sydd wedi'i Indemnio**") yn dioddef colled o ganlyniad i weithredoedd y Parti arall y mae'r Parti hwnnw wedi darparu indemniad ar ei gyfer (y "**Parti sy'n Indemnio**") yn unol â chymalau 13.1 ac 13.5 uchod, bydd y Parti sy'n Indemnio'n talu'r symiau y mae'r Parti sydd wedi'i Indemnio'n eu hawlio o fewn rheswm i'r Parti sydd wedi'i Indemnio mewn perthynas â gweithredoedd o'r fath.
- 13.7** Bydd pob parti'n sicrhau bod ganddynt yr yswiriannau canlynol a'u bod yn ddilys:
- 13.7.1 Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus am isafswm o £10,000,000 ar gyfer pob un hawliad;
- 13.7.2 Yswiriant Atebolrwydd Cyflogwyr am isafswm o £10,000,000 ar gyfer pob un hawliad; ac
- 13.7.3 Yswiriant Indemniad Proffesiynol am isafswm o £5,000,000 ar gyfer pob un hawliad.

Rhan 7 Gweithwyr

14 Gweithwyr

- 14.1** Bydd y Rheolwr Prosiect yn cael ei gyflogi gan yr Awdurdod Arweiniol, oni bai fod yr unigolyn hwnnw'n cael ei gyflogi gan un o'r Partion eraill (yn y cymal hwn, y "Cyflogwr"), lle byddai'r unigolyn yn cael ei secondio gan y Cyflogwr i'r Awdurdod Arweiniol am y Cyfnod.
- 14.2** Bydd yr Awdurdod Arweiniol a'r Cyflogwr yn cytuno ar delerau'r secondiad rhyngddynt.

Rhan 8 Cyfnod a therfynu

15 Cyfnod

Bydd y Cytundeb hwn yn parhau tan ddyddiad terfyn y Cyfnod neu nes bydd camau'n cael eu cymryd i derfynu'r Cytundeb yn unol â darpariaethau cymal 16 (Terfynu).

16 Terfynu

16.1 Ni fydd y Cytundeb hwn yn agored i gael ei derfynu am unrhyw reswm oni bai fod y Partïon yn cytuno'n unfrydol y dylid derfynu'r Prosiect.

16.2 Oni bai fod y Partïon yn cytuno fel arall yn unol â chymal 16.1, bydd y Prosiect yn derfynu ar neu cyn 31 Rhagfyr 2021.

17 Canlyniadau Terfynu

17.1 Os yw'r Partïon yn cytuno derfynu'r Prosiect, bydd y Bwrdd Rheoli Strategol yn cyfarfod i adolygu'r camau gweithredu angenrheidiol, gan gynnwys, heb gyfyngiadau, addasu costau'r Prosiect a'r taliadau ac yn benodol mewn perthynas â thalu'r Grant ac unrhyw ddarpariaethau i'w hawlio'n ôl.

17.2 Wrth derfynu yn unol â chymal 16.2 bydd cysoniad yn unol â chymal 11.5.

18 Eiddo Deallusol

18.1 Mae'r Partïon yn cytuno y bydd pob hawl i, teitl ar a buddiant ynghlwm ag unrhyw wybodaeth, data, adroddiadau, dogfennau, gweithdrefnau, rhagolygon, technoleg, Gwybodaeth Ymarferol Arbennig ac unrhyw Hawliau Eiddo Deallusol eraill o unrhyw fath a oedd yn berchen iddynt cyn y Dyddiad Cychwyn neu wedi'u datblygu gan unrhyw un ohonynt yn ystod y Cyfnod, yn parhau'n eiddo i'r Parti hwnnw.

18.2 Pan mae un o'r Partïon wedi darparu ei Hawliau Eiddo Deallusol i un neu fwy o'r Partïon eraill i'w defnyddio ynghlwm â'r Prosiect hwn, bydd y Parti a'u derbyniodd, wrth derfynu'r Cytundeb hwn, yn rhoi'r gorau i ddefnyddio Hawliau Eiddo Deallusol o'r fath ar unwaith a bydd un ai'n dychwelyd Hawliau Eiddo Deallusol o'r fath neu'n eu dinistrio, gan ddibynnu ar ddymuniad y Parti maent yn eiddo iddo oni bai fod y Partïon perthnasol yn cytuno fel arall.

Rhan 9 Trin problemau, osgoi anghydfodau a'u datrys

19 Hysbysu am drin problemau

19.1 Cyn gynted ag y daw unrhyw un o'r Partïon i wybod am unrhyw wahaniaeth neu anghydfod sy'n codi oherwydd neu yn sgil neu mewn perthynas â'r Cytundeb hwn, bydd yn hysbysu'r Awdurdod Arweiniol.

19.2 Wrth dderbyn hysbysiad yn unol â chymal 19.1, bydd y Rheolwr Prosiect yn galw cyfarfod i'r Bwrdd Rheoli Strategol gan roi dim mwy na 10 niwrnod gwaith o rybudd, yn rhoi gwybod iddo am yr holl wybodaeth sydd ar gael ynghylch y gwahaniaeth neu'r anghydfod.

- 19.3** Os nad yw'r Bwrdd Rheoli Strategol yn datrys y gwahaniaeth neu'r anghydfod neu'n dod o hyd i ateb sy'n dderbyniol i'r holl Bartïon, bydd y Bwrdd Rheoli Strategol yn cytuno ar y weithdrefn y dylid ei gweithredu i ddod o hyd i ddatrysiad i'r gwahaniaeth neu'r anghydfod a bydd yn nodi'r unigolion i'w henwebu i ymdrin â'r mater, a fydd yn gweithio yn ddidwyll ac o fewn terfyn amser rhesymol i ddod o hyd i ateb y cytunir arno ar gyfer y gwahaniaeth neu'r anghydfod.
- 19.4** Os na fydd unrhyw wahaniaeth neu anghydfod yn cael ei ddatrys yn unol â chymal 19.2 ac 19.3, yna bydd y mater yn cael ei atgyfeirio i ddatrys anghydfod mewn modd amgen yn unol â chymal 20.

20 Datrys anghydfod mewn modd amgen

- 20.1** Os bydd unrhyw wahaniaeth neu anghydfod mewn cysylltiad â'r Cytundeb hwn ac nad yw'n cael ei ddatrys â chymal 19, bydd y Partïon yn ceisio ei ddatrys trwy gyfryngu yn unol â Gweithdrefn Gyfryngu Fodel y Centre for Effective Dispute Resolution (CEDR). Oni bai fod y Partïon yn cytuno fel arall, bydd y cyfryngwr yn cael ei enwebu gan y CEDR. I gychwyn cyfryngu, bydd o leiaf un Parti'n hysbysu'r Parti arall neu'r Partïon eraill sy'n rhan o'r anghydfod yn ysgrifenedig yn gofyn am gyfryngiad. Bydd copi o'r cais yn cael ei anfon at CEDR ac at yr holl Bartïon yn unol â chymal 22 nad ydynt yn rhan uniongyrchol o'r anghydfod neu'r gwahaniaeth. Bydd cyfryngu'n cychwyn cyn pen 14 diwrnod ar ôl dyddiad yr hysbysiad am ddatrys anghydfod mewn modd amgen. Bydd canlyniad y cyfryngu'n mynd i ffurfio cytundeb a fydd yn rhwymo'r Partïon ynghylch y gwahaniaeth neu'r anghydfod, a fydd hefyd yn ysgwyddo costau'r cyfryngu'n gyfartal rhyngddynt.
- 20.2** Gall unrhyw Barti, yn hytrach na dilyn y weithdrefn sydd yng nghymal 20.1, gychwyn achos mewn llys o awdurdodaeth gymwys os yw'r Parti hwnnw'n credu bod hynny'n ddarbodus, yn hwylus ac yn angenrheidiol dan yr amgylchiadau.
- 20.3** Yn ddarostyngedig i gymal 20.2, ni fydd unrhyw Barti'n cychwyn unrhyw achos llys na phrosesau cymrodeddu mewn perthynas ag unrhyw anghydfod sy'n codi o'r Cytundeb hwn nes mae wedi ceisio datrys yr anghydfod trwy gyfryngu ac un ai fod y cyfnod cyfryngu wedi dod i ben neu fod y parti neu'r partïon eraill wedi methu â chymryd rhan yn y cyfryngu, cyn belled nad yw oedi'n effeithio'r hawl i gychwyn achos.

Rhan 10 Cyffredinol

21 Dim partneriaeth

- 21.1** Mae'r partïon yn endidau ar wahân ac ni fydd unrhyw beth yn y Cytundeb hwn yn cael ei ddehongli i awgrymu bod perthynas rhyngddynt fel cydbwyllgor, partneriaeth na phenadur/asiant na chyflogwr/gweithiwr na bod y Partïon yn rhan o fenter ar y cyd trwy lofnodi'r Cytundeb hwn (ac eithrio lle nodir hynny'n benodol yn y Cytundeb).
- 21.2** Ni fydd yr Awdurdod Arweiniol nac unrhyw un o'i weithwyr dan unrhyw amgylchiadau'n eu cyfrif eu hunain fel:

- 21.2.1 gwasanaethydd neu asiant i unrhyw Barti arall, ac eithrio mewn amgylchiadau sy'n cael eu caniatáu'n benodol yn y Cytundeb hwn;

- 21.2.2 rhai wedi'u hawdurdodi i lofnodi unrhyw gontract ar ran Parti neu mewn unrhyw fodd i rwymo Parti i gyflawni, amrywio, rhyddhau neu ollwng unrhyw ymrwymiad ar wahân i'r hyn a ganiateir yn benodol yn y Cytundeb hwn.

22 Hysbysiadau

- 22.1** Pan mae hysbysiad yn cael ei anfon at yr Awdurdod Arweiniol dan y Cytundeb hwn, bydd copi'n cael ei ddarparu i'r Rheolwr Prosiect, cyhyd ag nad yw methiant neu oedi wrth ddarparu copi o'r fath yn effeithio ar ddilysrwydd unrhyw hysbysiad na'r weithred o'i gyflwyno dan unrhyw amgylchiadau.
- 22.2** Os oes unrhyw wybodaeth neu ddogfen i gael ei darparu neu ei chyflwyno'n benodol i Gynrychiolydd Awdurdodedig neu'r Rheolwr Prosiect, bydd yn cael ei darparu neu ei chyflwyno trwy ei hanfon fel post dosbarth cyntaf, neu â llaw, gan ei gadael yn y cyfeiriadau perthnasol canlynol wedi'i nodi at sylw'r unigolion perthnasol:

Cyngor Sir Ddinbych
Neuadd y Sir
Ffordd Wynnstay
Rhuthun
LL15 1YN

Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Bodlondeb
Conwy
LL32 8DU

Cyngor Sir y Fflint
Neuadd y Sir
Yr Wyddgrug
Sir y Fflint
CH7 6NB

Cyngor Gwynedd
Swyddfeydd y Cyngor
Stryd y Jêl
Caernarfon
Gwynedd
LL55 1SH

Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
Neuadd y Dref
Wrecsam
LL11 1AY

Cyngor Sir Ynys Môn
Swyddfeydd y Cyngor
Llangefni
Ynys Môn

LL77 7TW

Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru (GGGC)

Tŷ Glan yr Afon
21 Cowbridge Road East
Caerdydd
CF11 9AD

BIPBC

Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
Ysbyty Gwynedd
Penrhosgarnedd
LL57 2PW

22.3 Gall unrhyw un o'r Partïon newid y cyfeiriad ar ei gyfer trwy roi hysbysiad ymlaen llaw i'r Awdurdod Arweiniol yn unol â chymal 22.

22.4 Bydd hysbysïadau'n weithredol:

22.4.1 trwy'r post, wrth eu derbyn neu ddau ddiwrnod gwaith ar ôl eu postio, pa bynnag un sydd gyntaf; neu

22.4.2 wrth eu danfon â llaw, ar adeg y danfon,

ac er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth, ni fydd unrhyw hysbysiad a gyflwynir yn unol â chymal 22 yn cael ei gyfrif yn weithredol os yw'n cael ei anfon mewn e-bost.

22.5 Bydd unrhyw hysbysiad, gwybodaeth, cyfarwyddiadau neu ohebiaeth gyhoeddus a roddir yn unol â chymal 22 (Hysbysïadau) i:

22.5.1 y Rheolwr Prosiect yn cael ei gyfrif/chyfrif i fod wedi'i roi/rhoi i'r Awdurdod Arweiniol; ac

22.5.2 y Cynrychiolydd Awdurdodedig yn cael ei gyfrif/chyfrif i fod wedi'i roi/rhoi i'r Parti perthnasol.

23 Cytundeb cyfan

Mae'r Cytundeb hwn a'r holl ddogfennau y cyfeirir atynt (gan gynnwys unrhyw amrywiadau y cytunir arnynt yn y dyfodol, a wneir yn unol â chymal 32) yn cyfrif fel y cytundeb llawn rhwng y Partïon mewn perthynas â'r pwnc maent yn ei drin ac mae'n disodli'r holl ohebiaeth, sylwadau, gwarantau, amodau, ymgymeriadau a chytundebau eraill, yn rhai llafar neu ysgrifenedig, rhwng y Partïon.

24 Costau a threuliau

Bydd pob Parti'n talu ei gostau a'i dreuliau ei hun sy'n codi mewn perthynas â thrafod, paratoi a gweithredu'r Cytundeb hwn.

25 Arfer swyddogaethau statudol

Ni fydd unrhyw beth yn y Cytundeb hwn yn rhwystro nac yn atal unrhyw Barti rhag arfer ei bwerau statudol na pherfformio ei ddyletswyddau statudol.

26 Ildio hawliau

Ni fydd unrhyw delerau na darpariaethau yn y Cytundeb hwn yn cael eu hystyried fel ildiad hawliau gan unrhyw Barti oni bai bod y Parti hwnnw'n cyflwyno ildiad hawliau'n ysgrifenedig.

27 Toradwyedd

Os bydd unrhyw delerau, amodau neu ddarpariaethau yn y Cytundeb hwn yn annilys, yn anghyfreithlon neu'n amhosib' eu gorfodi i unrhyw raddau, ni fydd y telerau, yr amodau na'r darpariaethau hynny'n effeithio ar ddilysrwydd, cyfreithlondeb na'r gallu i weithredu'r rhannau o'r Cytundeb hwn sy'n weddill.

28 Y gyfraith ac awdurdodaeth

Bydd y Cytundeb contract hwn ac unrhyw rwymedigaethau sy'n deillio ohono neu'n gysylltiedig ag o yn cael eu rheoli dan gyfreithiau Cymru a Lloegr ac, yn ddarostyngedig i ddarpariaethau cymal 20 (Datrys anghydfod mewn modd amgen) sy'n ymwneud â datrys anghydfodau, mae'r Partïon yn ymroi i awdurdodaeth llysoedd Cymru a Lloegr yn gyfan gwbl.

29 Gwybodaeth a chyfrinachedd

29.1 Mae'r Partïon yn cytuno na fydd darpariaethau'r Cytundeb hwn, yn ddarostyngedig i gymal 29.2, yn cael eu trin yn gyfrinachol ac y gellid eu datgelu heb gyfyngiadau.

29.2 Ni fydd cymal 29.1 yn berthnasol i unrhyw ddarpariaeth yn y Cytundeb hwn sydd wedi'i dynodi fel gwybodaeth gyfrinachol.

29.3 Mae'r darpariaethau sydd yng nghymal 29 (Gwybodaeth a chyfrinachedd) yn ddarostyngedig i rwymedigaethau Partïon dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004.

29.4 Bydd y Partïon yn cydymffurfio â Deddf Diogelu Data 2018 bob amser (ac unrhyw ddeddfwriaeth flaenorol a wnaed yn unol â Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol yr UE ((EU) 2016/679) o ran Data Personol. Bydd y Partïon yn ffurfio cytundeb prosesu data os oes angen ar y telerau y cytunir arnynt rhyngddynt.

29.5 Bydd darpariaethau Atodlen 7 hefyd yn berthnasol i wybodaeth gyfrinachol.

30 Aseiniaid

Ni fydd unrhyw Barti'n aseinio, is-contractio nac yn cael gwared ar fuddiant y Cytundeb hwn mewn unrhyw fodd ac eithrio pan mae'r Partïon eraill yn cytuno ac fel mae'r Bwrdd Rheoli Strategol yn ei gytuno.

31 Hawliau trydydd parti

Nid oes unrhyw un o delerau'r Cytundeb hwn yn orfodadwy dan Ddeddf Contractau (Hawliau Trydydd Parti) 1999 gan unigolyn nad yw'n rhan o'r Cytundeb hwn.

32 Amrywiadau

Gellir amrywio'r Cytundeb hwn trwy dderbyn hysbysiad cytuno ysgrifenedig gan y Partïon ar unrhyw adeg, cyhyd â bod unrhyw amrywiadau'n cael eu cymeradwyo yn gyntaf gan y Bwrdd Rheoli Strategol a bydd amrywiadau o'r fath wedyn yn cael eu cynnwys yn a'u hatodi i'r Cytundeb hwn.

33. Gwrthrannau

33.1 Gellir gweithredu'r Cytundeb hwn mewn unrhyw nifer o wrthrannau a gan y Partïon ar wahanol wrthrannau.

33.2 Bydd pob gwrthran yn un o'r Cytundeb gwreiddiol hwn ond bydd pob gwrthran gyda'i gilydd yn ffurfio'r un Cytundeb.

TYSTIED HYN OLL bod y Partïon wedi llofnodi a chyflawni'r Cytundeb hwn fel Gweithred ar o fis 2019.

Mae Sêl Gyffredin Cyngor Sir Ddinbych wedi'i gosod yma ym mhresenoldeb:

Llofnodwr Awdurdodedig

Wedi'i llofnodi fel Gweithred trwy osod Sêl Gyffredin Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ym mhresenoldeb:

Swyddog Selio Awdurdodedig

Mae Sêl Gyffredin Cyngor Sir Ynys Môn wedi'i gosod yma ym mhresenoldeb:

Swyddog Selio Awdurdodedig

Mae Sêl Gyffredin Cyngor Sir y Fflint wedi'i gosod yma ym mhresenoldeb:

Cadeirydd:

Llofnodwr Awdurdodedig

Wedi'i llofnodi fel Gweithred trwy osod Sêl Gyffredin Cyngor Gwynedd ym mhresenoldeb:

Llofnodwr Awdurdodedig

Mae Sêl Gyffredin Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam wedi'i gosod yma ym mhresenoldeb:

Llofnodwr Awdurdodedig

Wedi'i llofnodi fel Gweithred gan GGCC

Llofnodwr Awdurdodedig

Wedi'i Ilofnodi fel Gweithred gan BIPBC

Llofnodwr Awdurdodedig

Atodlen 1**Diffiniadau**

Achos Busnes yw'r Achos Busnes a gyflwynir i'r Adran DDCCh yn rhan o'r cais am y Grant ac sydd wedi'i atodi yma yn Atodlen 6.

Adran DDCCh yw'r Adran Digidol, Diwylliant, Cyfryngau a chwaraeon.

Awdurdod Arweiniol yw Cyngor Sir Ddinbych.

Blwyddyn yw cyfnod parhaus o 12 mis gan gychwyn ar y Dyddiad Cychwyn a phob blwyddyn wedi hynny.

Bwrdd Rheoli Strategol yw'r Bwrdd a sefydlir gan y Partïon dan gymal 3 o'r Cytundeb hwn.

Canllawiau yw unrhyw ganllawiau statudol a roddir gan adran o'r llywodraeth.

Cyfnod yw'r cyfnod o'r Dyddiad Cychwyn tan 31 Rhagfyr 2021 oni bai y daw i ben ynghynt. **Cylch Gorchwyl** yw'r telerau sydd wedi'u nodi yn Atodlen 4;

Cynrychiolydd Awdurdodedig yw'r unigolyn sy'n cael eu penodi'n unol â chymal 6 neu ddirprwy iddynt.

Cytundeb yw'r cytundeb hwn sy'n rheoli'r trefniadau i weithredu Rhwydwaith Ffibr Llawn Lleol Gogledd Cymru, yn cynnwys yr Atodlenni a'r Atodiadau i'r Atodlenni.

Data Personol yw data personol fel mae'n cael ei ddiffinio yn Neddf Diogelu Data 2018 a Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol ((EU) 2016/679).

Deddfwriaeth yw unrhyw Ddeddf Seneddol neu Is-ddeddfwriaeth sy'n cyd-fynd ag ystyr Adran 21(1) Deddf Dehongli 1978, unrhyw enghraifft o arfer yr Uchelfraint Frenhinol, ac unrhyw hawl gymunedol orfodadwy sy'n cyd-fynd ag ystyr Adran 2 Deddf Cymunedau Ewropeaidd 1972, ym mhob achos yn y Deyrnas Gyfunol fel y bo'n berthnasol.

Dyddiad Cychwyn yw dyddiad y Cytundeb hwn a nodwyd ar ôl i holl lofnodwyr y Partïon lofnodi'r Cytundeb.

Grant yw'r swm o £8,086,000, neu fel y gall gael ei amrywio o dro i dro lle byddai'r Adran DDCCh yn rhoi gwybod i'r Awdurdod Arweiniol, sy'n cael ei dalu i'r Awdurdod Arweiniol gan yr Adran Digidol, Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon yn rhan o'r Gronfa Her ac sydd wedi'i nodi yn y llythyr gan yr Adran DDCCh yn Atodlen 8.

Y **Gwaith** yw gosod isadeiledd ffibr llawn ar safleoedd sydd wedi'u nodi gan y Partïon yn y Rhaglen Waith.

Gwasanaethau yw'r gwasanaethau sydd wedi'u disgrifio yn y Fanyleb;

Ystyr **Gwybodaeth Gyfrinachol** yw'r ystyr sydd i'w weld yn Atodlen 7.

Gwybodaeth ymarferol arbennig yw gwybodaeth, data, dealltwriaeth neu brofiad y mae posib' gosod patent arno neu ddim sy'n cynnwys, ond heb ei gyfyngu i, unrhyw wybodaeth dechnegol neu fasnachol sy'n ymwneud ag ymchwil, dyluniad, datblygu, cynhyrchu, defnyddio neu werthu.

Hawliau Eiddo Deallusol yw pob patent, hawlfraint a hawl ar dyluniad (cofrestredig neu ddim) a phob cais ar gyfer unrhyw rai o'r rheini a phob hawl o ran cyfrinachedd a gwybodaeth ymarferol arbennig sy'n deillio mewn unrhyw fodd am eu cyfnodau'n llawn ac unrhyw adnewyddiadau neu estyniadau.

Manyleb yw'r disgrifiad o'r Gwasanaethau fel maent wedi'u nodi yn Atodlen 2.

Mae **Newid i'r Gyfraith** yn golygu

- (a) Deddfwriaeth a ddaw i rym ar ôl dyddiad y Cytundeb hwn; neu
- (b) Ganllawiau; neu
- (c) Unrhyw ddyfarniad cymwysadwy gan lys barn berthnasol sy'n creu neu'n newid cynsail rwymol.

Prosiect yw'r Rhwydwaith Ffibr Llawn Lleol wedi'i ariannu gan yr Adran Digidol, Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon yn rhan o'r Gronfa Her.

Rhaglen Waith yw'r rhaglen sydd wedi'i chymeradwyo gan y Bwrdd Rheoli Strategol a'r rhestr o safleoedd sydd wedi'u nodi (fel y gallant amrywio o dro i dro trwy gymeradwyaeth y Bwrdd Rheoli Strategol) yn Atodlen 5.

Rheolwr Prosiect yw'r sawl sydd wedi'i benodi gan yr Awdurdod Arweiniol i reoli ac arwain ar gyflawni'r Prosiect neu eu dirprwy.

Uwch-swyddog Cyfrifol Steve Bayley o Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

Atodlen 2

Gwasanaethau

1 Cyffredinol

1.1 Bydd yr Awdurdod Arweiniol yn rheoli'r Prosiect trwy'r Rheolwr Prosiect.

1.2 Bydd Wreccsam yn darparu'r Uwch-swyddog Cyfrifol.

2. Prif Wasanaethau – Uwch-swyddog Cyfrifol

2.1. Cadeirio cyfarfodydd y Bwrdd Rheoli Strategol ar gyfer y flwyddyn gyntaf.

2.2. Gweithredu fel uwch-bwynt cyswllt gyda'r Adran DDCCh a chyda holl bartneriaid eraill y Prosiect.

2.3. Bydd yr Uwch-swyddog yn goruchwyllo gwaith y Rheolwr Prosiect.

2.4. Adrodd wrth Is-bwyllgor Cysylltedd Digidol Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru.

3 Prif Wasanaethau – Rheolwr Prosiect

3.1 Darparu cymorth rheoli a gweinyddu o ddydd i ddydd i'r Bwrdd Rheoli Strategol ac i bob Parti.

3.2 Cadw cynllun y Prosiect yn gyffredol a thrafod gyda phob Parti i sicrhau bod newidiadau i Raglen Waith y Prosiect yn cael eu rheoli yn unol â chynllun cyffredinol y Prosiect. I osgoi unrhyw amheuaeth, ni fydd unrhyw newidiadau'n cael eu gwneud i Raglen Waith y Prosiect heb roi gwybod i'r Rheolwr Prosiect a bydd unrhyw bryderon, gwahaniaethau neu anghydfodau ynghylch newidiadau o'r fath yn cael eu hatgyfeirio at y Bwrdd Rheoli strategol i'w datrys.

3.3 Trafod gyda'r darparwr dan Brosiect Cydgasglu Band Eang y Sector Cyhoeddus ynghylch Rhaglen Waith y Prosiect a rheoli eu perfformiad cyffredinol i sicrhau bod y Prosiect yn cael ei gyflawni'n llwyddiannus. I osgoi unrhyw amheuaeth, bydd pob Parti'n gyfrifol am drefnu i gomisiynu a chwblhau gwaith ar gyfer pob safle ac ni fydd comisiyniadau unigol yn gyfrifoldeb ar y Rheolwr Prosiect.

3.4 Trafod gyda'r Adran DDCCh.

3.5 Casglu a monitro cynlluniau gwariant gan bob Parti a nodi gwaith at y dyfodol.

3.6 Monitro cyfanswm gwariant y Prosiect o fewn y Grant.

3.7 Bod yn gyswllt cyntaf ar gyfer anghydfodau sy'n codi o dan y Cytundeb.

3.8 Derbyn hawliadau am ad-dalu costau cysylltiadau gan y Partïon.

3.9 Cyflwyno hawliadau i dalu'r Grant i'r Adran DDCCh.

- 3.10** Ad-dalu'r gyfran berthnasol o'r Grant i'r Partïon am y Gwaith a archebwyd gan y Parti hwnnw.
- 3.11** Adrodd wrth Is-bwyllgor Cysylltedd Digidol Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru.
- 3.12** Trafod gyda rheolwr Prosiect Cydgasglu Band Eang y Sector Cyhoeddus a'r darparwr ar sail Prosiect cyfan a rheoli eu perfformiad cyffredinol i sicrhau bod y Prosiect yn cael ei gyflawni'n llwyddiannus, ond ni fydd hyn yn ymwneud â chomisiynu'r Gwaith.

Atodlen 3

CYLLID

1.1 Bydd ad-daliadau'n cael eu gwneud i Bartion yn unol â chymal 11 y Cytundeb.

1.2 Bydd Parti sy'n dymuno hawlio ad-daliad yn cwblhau ffurflen hawlio fel sydd yn Atodiad A i Atodlen 3.

1.3 Wrth i'r Rheolwr Prosiect dderbyn ffurflen hawlio wedi'i chwblhau, bydd y Rheolwr Prosiect yn gwirio'r hawliad a phan fydd wedi'i fodloni â'r hawliad a'i fod yn unol â Rhaglen Waith y Prosiect, bydd yr hawliad yn cael ei gyflwyno i'r Adran DDCCh i'w gymeradwyo a'i ad-dalu.

1.4 Ni fydd yr Awdurdod Arweiniol dan unrhyw rwymedigaeth i wneud ad-daliad i Barti nes bydd yr Awdurdod Arweiniol wedi derbyn taliad am y gyfran berthnasol o'r Grant gan yr Adran DDCCh.

1.5 Bydd y Partion yn cyflwyno hawliadau'n unol â dogfen Archebu a Hawliadau Rhwydwaith Ffibr Llawn Lleol; Uwchraddiadau Sector Cyhoeddus sydd wedi'i hatodi fel Atodiad B i Atodlen 3.

Atodiad A i Atodlen 3

Ffurflen hawlio gan gynnwys tystiolaeth o wariant fel anfoneb gan y darparwr



LFFN Claim
Form.xlsx

Atodiad B i Atodlen 3

Archebu a Hawliadau Rhwydwaith Ffibr Llawn Lleol; Uwchraddiadau Sector Cyhoeddus



LFFN Claims and
Ordering.docx

Atodlen 4

Rheoli a Llywodraethu

1. Cylch Gorchwyl y Bwrdd Rheoli Strategol

1.1 Rôl a Swyddogaeth:

Bydd y Bwrdd Rheoli Strategol yn cael ei gynrychioli gan y Partion i ddarparu cyfeiriad strategol ar gyfer y Prosiect, gan sicrhau:

- Cydweithio.
- Rheoli materion a risgiau strategol.
- Monitro ac adolygu'r broses o gyflawni'r Prosiect o fewn y gyllideb.
- Cydymffurfio ag amodau'r Grant.
- Cyflawni amcanion y Prosiect.
- Adolygu perfformiad cyffredinol y Prosiect yn flynyddol

2. Aelodaeth

2.1 Y cynrychiolwyr ar y Bwrdd Rheoli Strategol fydd:

Helen Makin - Rheolwr Gweithrediadau Cyfreithiol a Chaffael (yr Awdurdod Arweiniol) (ddim yn pleidleisio);

Stuart Whitfield - Rheolwr Prosiect (yr Awdurdod Arweiniol) (ddim yn pleidleisio);

Barry Eaton - Prif Swyddog TGCh (yr Awdurdod Arweiniol);

Huw McKee - Pennaeth Technoleg Gwybodaeth a Thrawsnewid Digidol (Conwy);

Linda Astbury - Rheolwr Cyfathrebu TG (Sir y Fflint);

Huw Ynyr - Uwch-reolwr TG a Thrawsnewid (Gwynedd);

Steve Bayley - Pennaeth Tai a'r Economi a'r Uwch-swyddog Cyfrifol (Wrecsam) (Cadeirydd) (am y flwyddyn gyntaf);

Dave Jacobs - Arweinydd TGCh (Wrecsam);

Neil Summers - Rheolwr Gwasanaethau Technegol (Ynys Môn);

David Slocombe - Rheolwr Cyfathrebu Data (BIPBC);

Chris Brown - Rheolwr Datblygu Isadeiledd (GGGC);

2.2 Gall pob aelod o'r Bwrdd Rheoli Strategol enwebu cynrychiolydd arall o'r un lefel ac arbenigedd i fynd i gyfarfodydd pan maent yn absennol. Bydd rhai sy'n cael eu henwebu'n cael eu briffio a'u paratoi cyn mynd i gyfarfod y Bwrdd. Bydd yr enwebai wedyn yn adrodd yn ôl wrth aelod y Bwrdd ar ôl y cyfarfod.

2.3 Bydd gan bob aelod o'r Bwrdd Rheoli Strategol hawliau pleidleisio ac eithrio fel y nodir uchod a bydd yr hawl hon yn trosglwyddo i'r enwebai os nad yw'r cynrychiolydd yn bresennol yn y cyfarfod. Un bleidlais yn unig a ganiateir i bob sefydliad.

2.4 Bydd pob Parti'n sicrhau bod ei aelod neu ei enwebai ar y Bwrdd Rheoli Strategol yn gwneud pob ymdrech resymol i ddod i'r cyfarfodydd lle mae angen i aelodau'r bwrdd fod yn bresennol.

Gall cyrff sector cyhoeddus, swyddogion/aelodau awdurdodau lleol neu fudd-ddeiliaid allweddol eraill ddod i gyfarfod y Bwrdd Rheoli Strategol fel y bo'n briodol i gynorthwyo'r grŵp i wneud ei waith.

3. Cyfarfodydd

3.1 Bydd cymorth gweinyddol ac ysgrifenyddiaeth y Bwrdd Rheoli Strategol yn cael ei ddarparu gan y Rheolwr Prosiect.

- Bydd cyfarfodydd yn cael eu cynnal pob chwarter neu pan fo angen penderfyniad.
- Bydd rhaglenni'n cael eu llunio gan y Rheolwr Prosiect.
- Bydd rhaglenni a'r dogfennau cysylltiedig yn cael eu hanfon at yr aelodau o leiaf wythnos cyn y dyddiad mae'r cyfarfod wedi'i drefnu.
- Bydd cofnodion yn cael eu cadw gan y Rheolwr Prosiect.

3.2 Bydd cworwm i gyfarfod y Bwrdd Rheoli Strategol cyhyd â bod hanner ac un o aelodau'r Bwrdd Rheoli Strategol neu eu henwebeion yn bresennol, yn cynnwys y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd.

Atodlen 5 Rhaglen Waith



LFFN Sites April
04.xlsx



Openreach North
Wales Theoretical d

Atodlen 6 Achos Busnes



LFFN Business Case
Dec 2018.pdf

Atodlen 7 Cyfrinachedd

Yn Atodlen 7, bydd Derbyniwr yn golygu'r Parti sy'n dod i gadw gwybodaeth gyfrinachol trwy unrhyw fodd a bydd y Datgelwr yn golygu'r Parti sy'n datgelu'r wybodaeth gyfrinachol i'r Derbyniwr trwy unrhyw fodd a bydd gwybodaeth gyfrinachol yn golygu:

- (a) unrhyw wybodaeth sy'n ymwneud â gweithrediadau, busnes, materion, datblygiadau, hawliau eiddo deallusol, cyfrinachau'r diwydiant, gwybodaeth ymarferol arbennig a/neu bersonél unrhyw Barti neu'r Adran DDCCh neu eu darparwyr neu isgcontractwyr neu ymgeiswyr eraill a'u darparwyr hwythau dan y Rhaglen Rhwydwaith Ffibr Llawn Lleol; ac
- (b) unrhyw wybodaeth sydd wedi'i dynodi'n glir fel gwybodaeth gyfrinachol (p'un a yw wedi'i nodi'n "gyfrinachol" ai peidio) neu y dylid ei hystyried yn rhesymol yn gyfrinachol,

ym mhob achos ym mha bynnag gyfrwng neu ar ba bynnag ffurf (gan gynnwys gwybodaeth ysgrifenedig, llafar, gweledol neu electronig).

a bydd "Deddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth yn golygu Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004.

- 1.1 Wrth ystyried a yw'r Partion yn cytuno i delerau'r Cytundeb hwn ac i ddatgelu gwybodaeth gyfrinachol, mae'r Derbyniwr yn addo i'r Datgelwr, mewn perthynas â'r holl wybodaeth gyfrinachol a ddatgelir i'r Derbyniwr neu i unrhyw unigolyn ar ran y Derbyniwr gan y Datgelwr neu unrhyw unigolyn ar ran y Datgelwr, y bydd y Derbyniwr yn:
 - 1.1.1 trin yr holl wybodaeth gyfrinachol yn gwbl gyfrinachol a'i chadw'n ddiogel (fel y bo'n briodol gan ddibynnu ar ba ffurf mae gwybodaeth o'r fath wedi'i chofnodi a'i chadw a natur y wybodaeth gyfrinachol);
 - 1.1.2 peidio â datgelu, copïo, ailgynhyrchu, cyhoeddi na rhannu'r wybodaeth gyfrinachol (nac unrhyw ran ohoni) i unrhyw un ac eithrio i'r graddau a ganiateir yn benodol o dan y Cytundeb hwn neu a awdurdodir fel arall yn ysgrifenedig gan y Datgelwr.
 - 1.1.3 parchu unrhyw hawliau perchnogol i'r wybodaeth gyfrinachol sy'n bod eisoes;
 - 1.1.4 yn unol â chymal 1.4, defnyddio'r wybodaeth gyfrinachol ar gyfer y Prosiect yn unig; a
 - 1.1.5 rhoi gwybod i'r Datgelwr ar unwaith wrth amau neu ddod i wybod bod rhywun wedi cael mynediad heb awdurdod at y wybodaeth gyfrinachol, wedi ei chopïo, ei defnyddio neu ei datgelu mewn unrhyw fodd.
- 1.2 Ni fydd cymal 1.1 yn berthnasol, neu fe fydd yn peidio â bod yn berthnasol, i'r graddau bod unrhyw wybodaeth gyfrinachol:
 - 1.2.1 yn neu'n dod yn hysbys neu ar gael i'r cyhoedd yn gyffredinol (ac eithrio o ganlyniad uniongyrchol neu anuniongyrchol i ddatgeliad yn groes i'r Cytundeb hwn neu unrhyw addewid cyfrinachedd a wneir gan unrhyw unigolyn arall);
 - 1.2.2 eisoes yn hysbys i'r Derbyniwr cyn i'r Datgelwr ei datgelu neu unrhyw unigolyn arall ar ran y Datgelwr a bod modd profi gwybodaeth flaenorol o'r fath trwy gofnodion ysgrifenedig y Derbyniwr;
 - 1.2.3 yn neu'n dod yn hysbys i'r Derbyniwr trwy ddatgeliad gan drydydd parti (ac eithrio pan mae datgeliad o'r fath ei hun yn destun rhwymedigaeth o gyfrinachedd);
 - 1.2.4 ddim angen ei thrin fel gwybodaeth gyfrinachol, fel mae'r Datgelwr wedi'i gadarnhau'n benodol yn ysgrifenedig; neu

- 1.2.5 yn ddarostyngedig i gymal 29.2, angen ei datgelu gan unrhyw awdurdod cyfreithiol, llywodraethol neu reoliadol perthnasol, cyhyd â bod hynny'n berthnasol mewn perthynas â datgeliadau sy'n ofynnol dan Ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth.
- 1.3 Bydd gan bob Parti hawl i ddatgelu gwybodaeth gyfrinachol i'r ymgynghorwyr proffesiynol i'r graddau angenrheidiol er mwyn iddo allu cael cyngor mewn perthynas â'r Prosiect a/neu i orfodi ei hawliau neu ei rwymedigaethau dan y Cytundeb hwn. Bydd y Derbyniwr yn sicrhau bod unrhyw ymgynghorydd proffesiynol y mae gwybodaeth gyfrinachol yn cael ei datgelu iddynt yn cydymffurfio â rhwymedigaethau cyfrinachedd ac amodau a thelerau'r Cytundeb hwn fel pe bai ymgynghorydd proffesiynol o'r fath yn derbyn gwybodaeth gyfrinachol o'r fath fel Derbyniwr o dan y Cytundeb hwn.
- 1.4 Bydd gan yr Adran DDCCh hawliau mewn perthynas â gwybodaeth gyfrinachol sydd wedi'u nodi yn Atodiad A i Atodlen 7.

2. **DYCHWELYD/DINISTRIO GWYBODAETH GYFRINACHOL**

- 2.2 Ar gais ysgrifenedig rhesymol o Datgelwr, bydd y Derbyniwr, heb oedi, yn:
- 2.2.1 dychwelyd neu'n dinistrio gwybodaeth gyfrinachol (yn cynnwys unrhyw gopiâu), gan gynnwys unrhyw ddogfennau neu ddeunydd arall sy'n cynnwys gwybodaeth gyfrinachol; a
- 2.2.2 Darparu cadarnhad ysgrifenedig i'r Datgelwr bod y wybodaeth gyfrinachol berthnasol wedi'i dinistrio a/neu nad yw'r Derbyniwr wedi cadw unrhyw gopiâu o'r wybodaeth gyfrinachol.

Atodiad A i Atodlen 7: Datgelu Gwybodaeth i'r Adran DDCCh

	GWYBODAETH GYFRINACHOL	HAWLIAU'R ADRAN DDCCh
1.	Gwybodaeth gyfrinachol wedi'i darparu gan y Partïon.	<p>Datgelu i adrannau eraill y llywodraeth i'w defnyddio mewn perthynas â'r Rhaglen Rhwydwaith Ffibr Llawn Lleol, cyhyd ag y bo'r Adran DDCCh yn rhoi gwybod i'r adran berthnasol yn y llywodraeth am natur gyfrinachol y wybodaeth.</p> <p>Cydgasglu gwybodaeth berthnasol am y prosiect (gan gynnwys gwybodaeth gyfrinachol) wedi'i darparu gan y Partïon i'w datgelu ar sail gyffredinol, ddiennw (e.e. cyfartaledd km o rwydwaith ffibr newydd i'r osod).</p>
2.	Unrhyw fersiwn o unrhyw contract neu ddogfen gaffael gysylltiedig sydd wedi'i chreu gan y Partïon, heb gynnwys cyflwyniadau tendrau bidio, canlyniadau arfarniad, data personol, ffioedd ac unrhyw wybodaeth sensitif arall y gall y Partïon gytuno arni'n ysgrifenedig.	<p>I'w defnyddio mewn perthynas â:</p> <ul style="list-style-type: none"> • datblygu templedi contractau a chanllawiau eraill dan y Rhaglen Rhwydwaith Ffibr Llawn Lleol; • cynnal llyfrgell o ddogfennau contractau a chaffael wedi'u hadolygu sydd wedi'u creu gan y Partïon ac ymgeiswyr eraill, <p>gan yr Adran DDCCh a'i datgelu i ymgeiswyr eraill dan y Rhaglen Rhwydwaith Ffibr Llawn Lleol.</p>
3.	Manylion llawn datrysiad technegol y Partïon (gan gynnwys rhestrï safleoedd a chynlluniau darparu).	Datgelu i dîm y Rhaglen Band Eang Cyflym lawn yn yr Adran DDCCh at ddibenion dylanwadu ar benderfyniadau strategaethol a mapio'r Rhaglen Band Eang Cyflym lawn.
4.	<p>Mewn perthynas â'r contract wedi'i lofnodi:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Gwerth cyfansymiol y ffioedd. • Lefel o gyllid yr Adran DDCCh. • Nifer y safleoedd i'w cysylltu. • Km o ffibr newydd i'w osod. • Crynodeb o'r datrysiad technegol (gan gynnwys nifer a math y tiwbiau a'r ffibrau). • Dull y Parti o fodloni gofynion y Rhaglen Rhwydwaith Ffibr Llawn Lleol (e.e. egwyddorion masnachol allweddol). 	Datgelu i ymgeiswyr eraill dan y Rhaglen Rhwydwaith Ffibr Llawn Lleol, cyhyd ag y bo pob ymgeisydd o'r fath wedi lofnodi cytundeb i beidio â datgelu ar delerau sy'n debyg i rai'r Cytundeb hwn.

Atodlen 8 Cynnig Amodol y Grant



North Wales
Conditional offer let